COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

# Polisi Chwythu'r Chwiban

Dyddiad cymeradwyo: Ebrill 2024

Dyddiad adolygu: Ebrill 2026

# Polisi Chwythu'r Chwiban

## Cynnwys


Cyflwyniad .......... 3

Diogelwch .......... 4

Cyhuddiadau .......... 5

Cyhuddiadau Ffug .......... 5

Statws .......... 9

# Polisi Chwythu’r Chwiban

**Cyflwyniad**

1. Mae aelodau staff yn aml mewn sefyllfa dda i adnabod pryderon ynglŷn â chamymddygiad neu amheuaeth o gamymddygiad o fewn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg). Fodd bynnag mae’n bosib na fyddant yn mynegi eu pryderon oherwydd eu bod yn ofni canlyniadau negyddol, neu oherwydd yn amgyffred y byddai siarad am y pryderon yn anffyddlon mewn rhyw ffordd i’w cydweithwyr neu i’r Coleg. Yn yr amgylchiadau hyn, gall fod yn haws i anwybyddu’r pryderon yn hytrach na dweud am yr hyn allai fod yn ddim ond drwgdybiaeth o gamymddygiad.

2. Bwriad y polisi hwn yw i annog a galluogi aelodau staff i godi pryderon difrifol o fewn y Coleg yn hytrach nag anwybyddu’r broblem, a phryd i ystyried chwythu’r chwiban yn allanol. Mae’r Coleg am:

    - Eich annog i deimlo’n hyderus wrth godi pryderon difrifol, ac i gwestiynu a gweithredu ar bryderon ynglŷn ag amheuon o gamymddygiad o fewn y Coleg.
    - Sicrhau eich bod yn deall eich cyfrifoldeb i adrodd ar gamymddygiad neu amheuaeth o gamymddygiad.

- Darparu llwybrau i chi godi pryderon a derbyn ymateb ar unrhyw weithredu.
- Tawelu eich meddwl y byddwch yn cael eich diogelu rhag dial neu erledigaeth os oes gennych ddatgeliad i'w wneud ynghlwm ag amheuaeth o gamwedd neu berygl sy'n gysylltiedig â gweithgareddau y Coleg. Mae hyn yn cynnwys datgeliadau am:
    - Lwgrwobrwyo, dwyll neu weithgaredd droseddol;
    - Camweinyddu cyfiawnder;
    - Risgiau iechyd a diogelwch;
    - Achosi niwed i'r amgylchedd; neu
    - Torri unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol neu broffesiynol.

(Mae'n bwysig nodi mai datgeliadau sydd **er lles cyhoeddus** sydd dan sylw yn y polisi hwn, hynny yw, bod y mater yn effeithio ar bobl eraill e.e. y cyhoedd. Nid yw cwynion personol yn berthnasol yn y cyswllt hwn – dylid defnyddio'r Polisi Cwyno ar gyfer y rhain).

**Diogelwch**

<u>Aflonyddu neu erledigaeth</u>

3. Mae'r Coleg yn cydnabod bod penderfynu adrodd ar bryderon yn gam anodd, yn rhannol oherwydd ofn dial neu erledigaeth gan y rhai hynny sydd yn gyfrifol am y camymddygiad honedig. Os

penderfynwch wneud datgeliad didwyll, ni ddylai fod gennych ddim i'w ofni oherwydd y byddwch yn gwneud eich dyletswydd i'ch cyflogwr ac i'r rhai hynny sydd yn derbyn gwasanaeth gennych.

4. Ni fydd aflonyddu ar neu erlid unigolion sydd wedi codi pryderon, gan gynnwys pwysau anffurfiol, yn cael ei ganiatáu a bydd yn cael ei drin fel trosedd disgyblu difrifol. Bydd y Coleg yn delio â mater o'r fath o dan ein gweithdrefn ddisgyblu.

5. Ni fydd unrhyw archwiliad chwythu'r chwiban yn dylanwadu ar unrhyw weithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo gorfodol (*redundancy*) sydd yn eich effeithio yn barod. Nid yw'n golygu 'chwaith y bydd unrhyw weithdrefnau o'r fath sydd yn eich effeithio yn cael eu hatal o ganlyniad i archwiliad chwythu'r chwiban.

**Cyhuddiadau**

6. Cynghorwn chi i osod eich pryderon yn ysgrifenedig a rhoi eich enw arnynt. Bydd pryderon sydd yn cael eu mynegi yn ddienw yn llawer llai darbwyllol. Os nad ydych yn dweud pwy ydych chi, bydd yn anoddach i amddiffyn eich sefyllfa neu archwilio mater yn llawn.

**Cyhuddiadau Ffug**

7. Os gwneir cyhuddiad didwyll, ond nad yw'n cael ei gadarnhau gan archwiliad, ni fydd unrhyw weithred yn eich erbyn. Fodd bynnag, os

gwneir cyhuddiad yn wamal, yn faleisus, neu ar gyfer budd personol, gellir cymryd camau disgyblu yn eich erbyn yn unol â Pholisi Disgyblu'r Coleg.

**Cyfrinachedd**

8. Bydd pob datgeliad yn cael ei drin yn gyfrinachol a gwneir pob ymdrech i beidio â datgelu eich enw os mai hynny fyddwch yn dymuno. Rhaid i chi werthfawrogi fodd bynnag y gallai'r broses archwilio ddatgelu ffynhonnell y wybodaeth ac mae'n bosib y bydd angen datganiad gennych chi fel tystiolaeth.

9. Sut i Fynd o Gwmpas Codi Pryderon

   - Peidiwch â chyhuddo person nac archwilio mater eich hunan.

   - Codwch y mater gyda'ch rheolwr llinell neu gyda'r rheolwr sydd â chyfrifoldeb dros adnoddau dynol yn y lle cyntaf (oni bai bod difrifoldeb neu natur y pryderon yn ei wneud yn fwy priodol i fynd yn syth at y Prif Weithredwr. Os yw'r mater yn ymwneud â'r Prif Weithredwr yna dylid cysylltu â Chadeirydd Bwrdd y Coleg.)

   - Gwnewch gofnod ysgrifenedig o'ch pryderon gyda manylion mor llawn â phosib os y gallwch, ond os oes rheswm digonol pam na allwch wneud hyn, cysylltwch neu drefnwch gyfarfod gyda'ch rheolwr llinell neu'r rheolwr sydd â chyfrifoldeb dros adnoddau dynol (oni bai bod difrifoldeb neu natur y pryderon yn ei wneud yn

fwy priodol i fynd yn syth at y Prif Weithredwr. Os yw'r mater yn ymwneud â'r Prif Weithredwr yna dylid cysylltu â Chadeirydd Bwrdd y Coleg.)

- Nid oes disgwyl i chi brofi gwirionedd y datgeliad, ond bydd angen i chi brofi bod sail rhesymol gennych i godi'r mater.

- Os teimlwch bod angen cyngor annibynnol arnoch, cysylltwch â'r corff annibynnol ACAS.

10. <u>Sut bydd y Coleg yn ymateb?</u>

Bydd hyn yn dibynnu ar natur y cyhuddiad / datgeliad. Gallent:

- gael eu harchwilio yn fewnol, sydd yn cynnwys gan Fwrdd y Coleg;
- cael eu cyfeirio at y cyllidwyr allanol;
- cael eu cyfeirio at yr heddlu mewn amgylchiadau ble fo hynny'n briodol.

Ble a phryd fo hynny'n bosibl a phriodol, bydd y Coleg yn cyfathrebu â chi ynglŷn â'r cynnydd gan gynnwys sut maent yn cynnig delio â'r mater, pa mor hir fydd y broses yn debygol o barhau ac os bydd archwiliadau pellach yn digwydd, ac os na fyddant, pam.

Cewch gymaint o adborth ag sydd yn bosib, oni bai bod rhoi adborth i chi yn golygu torri cyfrinachedd sydd yn ddyledus i rywun arall.

Os fydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda chi i drafod y mater, bydd gennych yr hawl i ddod â chydweithiwr neu gynrychiolydd o'r gweithle gyda chi i'r cyfarfod (ar yr amod nad yw'r cydweithiwr neu'r cynrychiolydd ynghlwm wrth y mater dan sylw).

Bydd y Coleg yn sicrhau eich bod yn cael eich hysbysu am ganlyniad yr archwiliad (yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiad cyfreithiol)

Os nad ydych yn hapus ag ymateb y Coleg i'r pryderon a godwyd gennych o dan y polisi a gweithdrefn yma, gallwch gysylltu â chyrff allanol (enghreifftiau isod).

| | |
|---|---|
| **Protect**<br>(Elusen chwythu'r chwiban annibynnol) | Llinell gymorth: 020 3117 2520<br>Gwefan: protect-advice.org.uk |
| **Yr Heddlu** | 101 |
| **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)** | 0300 003 1747 |

Os penderfynwch fynd â mater y tu allan i'r Coleg dylech sicrhau nad ydych yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol sydd yn amherthnasol i'r mater dan sylw.

**Statws**

11. Nid ydy'r polisi hwn yn ffurfio rhan o gytundeb cyflogaeth unrhyw aelod o staff a gall y Coleg ei addasu o dro i dro.